Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Gŵyr Abertawe
# Heol Tycoch
# Tycoch
# Abertawe
# SA2 9EB

# Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith
Cyrraedd y Nod / The Corporate Standard
Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd
Green Dragon Environmental Standard

Investors in People | Gold

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ffurfiwyd Coleg Gŵyr Abertawe yn Awst 2010 drwy uno Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe. Cenhadaeth y coleg yw dod â dau sefydliad cyflenwol a llwyddiannus at ei gilydd i greu sefydliad a fydd yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau dysgu rhagorol i bobl ifanc, oedolion a chyflogwyr yn Abertawe. Mae'r prif gampysau yn Nhycoch a Gorseinon a chanolfannau llai yng Nghanolfan Gorseinon, Broadway, Ffordd y Brenin, Llwyn y Bryn, Plas Sgeti a Pharc Sandringham.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cynnig ystod eang o gyrsiau i oddeutu 4,660 o ddysgwyr amser llawn a 7,400 o ddysgwyr rhan-amser. Roedd rhan fwyaf y cofrestriadau yng Ngorseinon yn 2009-10 ar raglenni lefel 3, gyda chyfran uchel o ddysgwyr yn dilyn rhaglenni mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg, y Celfyddydau Perfformio, Celf a Dylunio neu Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal. Yn Abertawe, roedd rhan fwyaf y cofrestriadau yn 2009-10 ar lefelau 2 a 3, gyda chyfran uchel o ddysgwyr ar raglenni mewn Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal, Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu neu Paratoi ar gyfer Bywyd a Gwaith.

Yng Ngorseinon, roedd tua 40% o'r holl ddysgwyr yn 2009-2010 yn wrywaidd, ac yn Abertawe, roedd tua 46% o'r holl ddysgwyr yn wrywaidd. Mae rhyw 7% o'r dysgwyr yn Abertawe, a rhyw 4% o'r dysgwyr yng Ngorseinon o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Mae nifer o ardaloedd o amddifadedd lluosog, fel y'u diffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn Ninas a Sir Abertawe. Yn Abertawe mae 17 o ardaloedd yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru. Mae'r gyfradd diweithdra yn 3.2%, sydd ychydig yn is na chyfradd Cymru, sef 4%. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gweithgarwch economaidd ar gyfer Abertawe, sef 67%, yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru, sef 72.6%. Mae gan Abertawe gyfran anghymesur o fawr o swyddi ym maes gweinyddiaeth gyhoeddus, lletygarwch, gwasanaethau ariannol a manwerthu o gymharu â gweddill Cymru. Cyflogir tua 90% o bobl mewn diwydiannau gwasanaeth yn Abertawe o gymharu â 78% yng ngweddill Cymru.

Mae rhyw 16% o boblogaeth Dinas a Sir Abertawe yn siarad Cymraeg, ac mae rhyw 22% yn deall Cymraeg llafar.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y coleg yn dda oherwydd:

- mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn eu prif gymwysterau yn dda'n gyffredinol, ac maent wedi dangos tuedd am i fyny o ran gwella dros y tair blynedd diwethaf;
- mae data'r coleg heb ei ddilysu ar gyfer blwyddyn gyntaf y coleg unedig yn dangos bod safonau da'r colegau etifeddiaeth wedi'u cynnal;
- mae cyfran dda o ddysgwyr yn cyflawni graddau uchel ar raglenni galwedigaethol ac mewn pynciau A2;
- mae dysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd da, yn enwedig medrau llefaredd, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod da o fedrau darllen i ddethol gwybodaeth o destunau;
- mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg, maent yn mwynhau'u dysgu ac yn cyfrannu'n dda mewn sesiynau dosbarth;
- mae ansawdd yr addysgu'n dda; ac
- mae ansawdd y cymorth ac arweiniad yn dda, ac mae'n helpu dysgwyr i wneud cynnydd da ar eu rhaglenni.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn dda oherwydd:

- mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwneud cynnydd da yn sefydlu un sefydliad sy'n rhannu gwerthoedd a nodau;
- mae'r coleg newydd wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol, yn enwedig o ran costau rheoli staff, heb unrhyw ddiswyddiadau gorfodol;
- effaith negyddol fach iawn mae'r uno wedi'i chael ar gynnydd a safonau dysgwyr;
- mae arweinwyr a rheolwyr yn ymgynghori'n eang â staff, dysgwyr a rhanddeiliaid mewn perthynas â newidiadau arfaethedig;
- mae gan arweinwyr a rheolwyr flaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella yn eu cynlluniau strategol, ac mae ganddynt hanes da o reoli newid a sicrhau gwelliannau mewn meysydd pwysig; ac
- mae llywodraethwyr wedi cynnig cefnogaeth a her gadarn, yn enwedig mewn perthynas â sefydlu'r coleg unedig.

## Argymhellion

Mae angen i'r coleg:

A1 wella deilliannau ym mhob maes dysgu yn unol â nodau strategol;

A2 nodi a mynd i'r afael ag anghenion medrau unigol pob dysgwr, yn enwedig ar Lefel 1 ac uwch;

A3 cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr wella'u Cymraeg llafar ac ysgrifenedig;

A4 darparu gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr i'r llywodraethwyr mewn fformat sy'n eu galluogi i herio perfformiad y coleg mewn perthynas â pherfformiad colegau eraill yng Nghymru; a

A5 gwella'r defnydd o ddata ar bob lefel er mwyn arfarnu perfformiad y coleg yn feirniadol o gymharu â pherfformiad darparwyr eraill; a defnyddio'r wybodaeth hon i ysgogi rhagor o welliannau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y coleg yn cynnwys yr argymhellion o'r arolygiad yn ei gynlluniau datblygu ansawdd. Bydd arolygydd cyswllt y coleg yn monitro cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer yr holl gyrsiau yn y ddau goleg etifeddiaeth wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd diwethaf (2007-2010). Yng nghampws Tycoch y mae'r cyfraddau gwella wedi bod uchaf ar gyfer pob cwrs. Mae'r cyfraddau gwella yn unol â chyfraddau colegau eraill yng Nghymru. Yn yr un modd, mae cyfraddau llwyddo ar gyfer cymwysterau medrau allweddol yn dda yn gyffredinol, ac maent wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae data heb ei ddilysu a ddarparwyd gan y coleg ar gyfer 2010-2011 yn dangos bod y duedd am i fyny mewn cyfraddau llwyddo wedi'i chynnal ym mlwyddyn gyntaf y coleg unedig. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol a rhaglenni Safon Uwch yn dda yn gyffredinol, ac nid yw'r uno wedi cael effaith negyddol ar safonau.

Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn agos at y lefelau disgwyliedig o gymharu â rhagfynegiadau'n seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol ar lefel TGAU mewn ysgolion.

Mae dysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol cymharol ddifreintiedig yn cyflawni'n dda. Er enghraifft, mae dysgwyr ar raglenni yn Nhycoch sy'n derbyn lwfans cynhaliaeth addysgol yn cyflawni cyfradd lwyddo gyffredinol uwchlaw'r gyfradd a gyflawnir gan y rhai nad ydynt yn derbyn y lwfans.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da ar eu rhaglenni. Maent yn gweithio'n dda yn y dosbarthiadau a arsylwyd, ac yn cyfrannu'n dda mewn tasgau dosbarth cyfan, grwpiau bach ac unigol. Mae'r dysgwyr yn deall beth a ddisgwylir ganddynt ac yn cyflawni'r amcanion dysgu a osodwyd yn eu dosbarthiadau.

Mae pob un o'r dysgwyr ar raglenni Gofal a Thrin Gwallt yn cyflawni unedau iaith Gymraeg Agored Cymru. Ychydig iawn o ddefnydd o'r Gymraeg y mae dysgwyr ar raglenni eraill yn gwneud yn eu dosbarthiadau.

Mae medrau llefaredd priodol gan y rhan fwyaf o ddysgwyr, ac maent yn cynnig esboniadau clir pan gânt eu holi. Mae mwyafrif yn cefnogi'u safbwyntiau a'u barnau'n dda. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau meddwl da a gallant archwilio cysyniadau'n effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio ystod dda o fedrau darllen i ddethol gwybodaeth o destunau. Mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddatblygu'u hymatebion mewn aseiniadau ysgrifenedig. Dangosir medrau darllen uwch gan ychydig iawn o ddysgwyr a gallant roi dehongliad personol o destunau.

Mae strategaethau addas gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ar gyfer cynllunio ysgrifennu. Mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n estynedig, ac mae ychydig ohonynt yn datblygu'u syniadau'n effeithiol drwy ysgrifennu estynedig. Mae llawer o ddysgwyr

yn defnyddio atalnodi'n gywir ac maent yn gwella'u sillafu yng nghyd-destun eu cyrsiau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddysgwyr yn gwneud gormod o gamgymeriadau mewn gramadeg a strwythur brawddegau, ac nid yw lleiafrif o ddysgwyr ar lefelau uwch yn defnyddio medrau ysgrifennu uwch yn ddigon da, yn enwedig o ran amrediad eu geirfa. Mae ychydig o ddysgwyr yn ysgrifennu'n dda at ddibenion a chynulleidfaoedd penodol.

**Lles: Da**

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn esmwyth yn y coleg, ac mae ganddynt hyder yn y modd y caiff ei lles ei hyrwyddo. Maent yn ymwybodol o bolisïau ar fwlio, gweithio'n ddiogel a seiberddiogelwch. Mae eu hagwedd tuag at fyw a bwyta'n iach wedi gwella trwy raglen diwtorial wedi'i strwythuro'n dda a gweithgareddau cyfoethogi eraill yn ymwneud â chwaraeon a hamdden.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ffynnu yn amgylchedd cefnogol y coleg ac maent yn datblygu hyder a hunan-barch. Mae prosiect ENGAGE yn ariannu pedwar Swyddog Cymorth Myfyrwyr i ddarparu cymorth ychwanegol i helpu dysgwyr. Fe wnaethant helpu 93 o ddysgwyr 'mewn perygl' i aros ar eu cyrsiau y llynedd.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mwynhau'u dysgu, maent yn frwdfrydig ynglŷn â'u profiadau a byddent yn argymell y coleg i ddysgwyr eraill. Maent yn cyfranogi'n dda mewn gweithgareddau dosbarth a gweithgareddau cyfoethogi. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau Santes Dwynwen, darlledu ar orsaf radio'r campws, codi arian i elusennau a phrosiect Kenya. Mae dysgwyr yn dangos ymddygiad da yn y dosbarth, maent yn trin pobl eraill â pharch ac yn cydymffurfio â chod ymddygiad y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn brydlon, ac mae presenoldeb yn foddhaol yn gyffredinol, ar 83%.

Mae dysgwyr yn ymwybodol y gallant leisio'u barnau a dylanwadu ar newid drwy arolygon llais myfyrwyr. Mae cynrychiolwyr dosbarthiadau'n cyfarfod fel Cyngor y Myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn. Rhoddir adborth i ddysgwyr ar gamau gweithredu a gymerwyd gan y Cyngor trwy bosteri wedi'u dosbarthu o amgylch y coleg ac wedi'u teilwra ar gyfer pob cyfadran neu gampws. Gellir cyflwyno cynigion am grantiau i Gyngor y Myfyrwyr i ddatblygu prosiectau neu brynu offer a fydd o fudd i ddysgwyr. Mae dysgwyr lywodraethwyr wedi bod yn arbennig o effeithiol yn eu cyfraniadau yn ystod y broses uno.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r coleg unedig yn cynnig ystod eang iawn o raglenni i ddysgwyr a chymunedau lleol, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r meysydd galwedigaethol a bron i 50 o bynciau Safon Uwch. Mae'n cynnig ystod eang o raglenni i ddiwallu anghenion diwydiant, busnes a sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn amrywio o lefel cyn mynediad i raglenni ar lefel addysg uwch. Cyflwynir rhaglenni trwy ddulliau amser llawn, rhan-amser a dulliau hyblyg eraill, gan gynnwys e-ddysgu a dulliau pwrpasol.

Yn sgil yr uno, mae'r coleg wedi mynd ati i ymgymryd ag adolygiad trylwyr o'r cwricwlwm. Ar yr un pryd, mae'r coleg yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr a'r

cymunedau ehangach yn dda. Mae cynlluniau ar waith i'r cwricwlwm ddatblygu dros y tair blynedd nesaf. Mae Cyfnod 1 o ddau gyfnod cynlluniedig yr adolygiad o'r cwricwlwm newydd ei gwblhau.

Mae profiad gwaith strwythuredig sydd wedi'i gynllunio'n dda ar gael i bob dysgwyr amser llawn. Mae profiad gwaith yn rhan sydd wedi'i hintegreiddio'n dda o raglenni amser llawn. Mewn rhai meysydd, fel Trin Gwallt a Therapi Harddwch a Lletygarwch ac Arlwyo, ategir hyn gydag amgylcheddau gweithio realistig yn y coleg.

Mae gan y coleg gysylltiadau cadarn ag ysgolion yn yr ardal, gan gynnwys ysgolion cynradd a'r rhan fwyaf o'r ysgolion cyfun lleol. Mae rhyw 500 o ddisgyblion ysgol yn mynychu'r coleg yn wythnosol.

Mae dros 500 o ddysgwyr yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC). Mae'r cymhwyster hwn wedi'i integreiddio'n dda ym mhrif gymwysterau'r dysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol. Dewis gwirfoddol yw'r cymhwyster yn y ddarpariaeth Safon Uwch. Mae'r ddarpariaeth llwybr carlam ar gael i ddysgwyr, ac mae hyn wedi helpu i wella nifer y dysgwyr Safon Uwch sy'n cwblhau CBC. At ei gilydd, mae'r cymhwyster yn ehangu o flwyddyn i flwyddyn ar draws y coleg.

Mae pob un o'r dysgwyr yn ymgymryd ag asesiad cychwynnol ar ddechrau'u rhaglen. Rhoddir cymorth da yn y dosbarth i fyfyrwyr sy'n cael eu hasesu fel dysgwyr ar lefel mynediad 3 ac is. Fodd bynnag, mewn gormod o ddosbarthiadau, nid yw'r wybodaeth asesu hon ar lefelau eraill gan athrawon, neu nid ydynt yn gwneud y defnydd gorau ohoni.

Ar ôl yr asesiad cychwynnol, mae dysgwyr ar lefelau gallu is yn ymgymryd â phrofion diagnostig i nodi a oes angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt. Pan fo hynny'n briodol, mae'r rhai sy'n cael eu nodi yn cael cymorth un i un da yn eu dosbarthiadau ac mewn sesiynau ymarferol.

Fe wnaeth y coleg gynnig yn llwyddiannus am Gyllid Gwella Ansawdd i ddatblygu pecyn offer llythrennedd. Mae athrawon yn dechrau defnyddio'r pecyn offer i ymgorffori medrau llythrennedd yn yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu ar draws pob maes dysgu. Dechreuodd hyn ym Medi 2011, ac mae'n dechrau cael effaith ar brofiad dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Caiff medrau hanfodol eu cydweddu'n nodweddiadol â lefel rhaglenni dysgwyr, ond nid yn ôl galluoedd penodol y dysgwyr o angenrheidrwydd. Mae medrau hanfodol wedi'u hymgorffori'n dda ac wedi'u gosod yng nghyd-destun mwyafrif y rhaglenni.

Mae'r coleg wrthi'n cyfuno cynlluniau iaith Gymraeg y colegau etifeddiaeth. Penodwyd cydlynydd Cymraeg newydd yn ddiweddar. Mae gan y coleg raglen ddatblygol o gynnwys y dimensiwn Cymreig mewn sesiynau trwy gyfeirio at gyfleoedd ym mhob cynllun gwaith.

Mae llawer o raglenni galwedigaethol yn cynnwys agweddau ar ddatblygu cynaliadwy yn eu cwricwlwm, fel cael gwared ar ddeunyddiau'n ddiogel ar ôl eu defnyddio, lleihau'r defnydd o ynni a chael gwared ar allyriadau niweidiol. Mae dysgwyr ar draws y coleg wedi datblygu cynllun 10 pwynt yn ddiweddar i wella safonau

amgylcheddol yn y coleg. Mae staff ac uwch reolwyr wedi ymateb yn dda i awgrymiadau'r dysgwyr lle bu hyn yn bosibl.

Cynhwysir amrywiaeth a dinasyddiaeth fyd-eang ym mhob un o'r rhaglenni tiwtorial. Mae nifer cynyddol o ddysgwyr yn ymwneud â Phrosiect Kenya, ac mae'n cynnwys diwrnod Kenya. Mae'r dysgwyr hyn yn datblygu dealltwriaeth ragorol o amrywiaeth fyd-eang wrth iddynt gefnogi'r ysgol yn Kenya. Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i gynnig cyfleoedd i'r ysgol i helpu'u hunain, yn hytrach na derbyn cymorth ariannol yn uniongyrchol. Yn y datblygiad diweddaraf o'r prosiect, aeth dysgwyr ati i adeiladu llyfrgell yr ysgol a'i stocio gyda llyfrau a gafodd eu rhoi.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda yn gyffredinol. Mae mwyafrif yr athrawon yn cynllunio'u sesiynau'n effeithiol ac yn defnyddio ystod dda o brofiadau dysgu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd effeithiol o dasgau dosbarth cyfan, grŵp ac unigol i ysgogi dysgwyr a chynnal eu diddordeb.

Yn y sesiynau gorau, mae athrawon yn gosod cyflymder da ar gyfer gweithgareddau addysgu ac asesu. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn herio'r dysgwyr yn dda i gyflawni graddau uwch yn eu haseiniadau a'u gwaith cwrs. Fodd bynnag, mewn nifer fach o sesiynau a arsylwyd, mae'r cyflymder yn rhy araf weithiau ac ni roddir graddfeydd amser ddigon clir i ddysgwyr ar gyfer cwblhau tasgau.

Yn gyffredinol, mae taflenni ac adnoddau dysgu eraill o safon dda. Mae athrawon yn defnyddio byrddau gwyn rhyngweithiol ac offer TGCh yn dda yn eu dosbarthiadau i ddefnyddio'r rhyngrwyd, adnoddau Moodle ac i baratoi aseiniadau a thasgau. Mae athrawon yn defnyddio'r adnoddau hyn yn dda i herio ac ysgogi dysgwyr mewn amrywiaeth eang o dasgau.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu adborth llafar da ac adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddysgwyr ar sut i wella safon eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r adborth ysgrifenedig yn ddigon manwl bob amser i helpu dysgwyr wella holl feysydd eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau holi ac ateb yn dda i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'u gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd da o gwestiynau unigol a chwestiynau dosbarth cyfan, a chwestiynau estynedig i ymestyn y dysgwyr mwy galluog.

At ei gilydd, caiff gwaith dysgwyr ei asesu'n dda. Mae athrawon yn sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau asesiadau'n seiliedig ar theori i safon dda. Mewn sesiynau ymarferol, mae athrawon yn asesu cymhwysedd ymarferol dysgwyr i safon dda.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd dysgwyr yn dda. Maent yn cadw cofnodion diweddar a manwl o'r cynnydd mae dysgwyr yn ei wneud tuag at gwblhau'u cymwysterau. Maent yn rhoi adborth llafar da i ddysgwyr ar eu cynnydd. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae dysgwyr yn llwyr ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt wneud i ennill eu cymwysterau.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

At ei gilydd, mae trefniadau effeithiol gan y coleg ar gyfer darparu gofal, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr. Mae dysgwyr yn cael gwybodaeth dda am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt a phwy y gallant fynd atynt os oes ganddynt bryderon ynglŷn ag unrhyw faterion. Maent yn siarad yn gadarnhaol iawn am y lefel uchel o gymorth a gânt gan holl staff y coleg.

Mae'r coleg yn hyrwyddo iechyd a lles y dysgwyr yn dda. Mae'r adran Gwasanaethau Dysgwyr yn trefnu amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau ar draws y coleg sy'n helpu dysgwyr i wella'u dealltwriaeth o les, ac yn eu hannog i gyfranogi mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae gweithdrefnau effeithiol a chlir gan y coleg ar gyfer delio ag ymddygiad annerbyniol a allai effeithio ar les a chynnydd dysgwyr, fel bwlio a phresenoldeb gwael.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn wybodus ynglŷn â'r hyn y gall y coleg ei gynnig iddynt cyn iddynt ddechrau eu rhaglenni. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau priodol ynglŷn â'u hastudiaethau yn y dyfodol. Mae proses dderbyniadau'r coleg yn cynnwys ymweliadau gan staff ag ysgolion i siarad â disgyblion, diwrnodau agored yn y coleg a chyfweliadau gydag arbenigwyr pwnc.

Pan fyddant yn dechrau ar eu rhaglenni, rhoddir cyflwyniad da i ddysgwyr i wasanaethau'r coleg a'u cwrs ac mae hyn yn eu helpu i ymgartrefu'n gyflym i fywyd coleg.

Mae gan y coleg wasanaethau cymorth arbenigol helaeth, a nifer o staff cymorth arbenigol, gan gynnwys swyddog cyswllt myfyrwyr, swyddogion cymorth myfyrwyr ac ymgynghorwyr dysgu. Mae ganddo gysylltiadau effeithiol iawn gydag asiantaethau allanol, er enghraifft, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig a Phobl Ifanc Sengl Ddigartref Abertawe. Mae'r sefydliadau hyn yn cefnogi gwaith y coleg yn dda, ac maent yn arbennig o effeithiol yn cefnogi dysgwyr 'mewn perygl' a dysgwyr sy'n fwy agored i niwed.

Mae pob dysgwr amser llawn yn elwa o gael cyswllt rheolaidd â thiwtor personol a sesiwn diwtorial wythnosol. Mae gan y coleg fframwaith tiwtorial da ar draws y coleg ac mae tiwtoriaid personol yn ei addasu'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion academaidd ac anghenion personol penodol grwpiau dysgwyr gwahanol. Mae tiwtorialau'n cynnwys arweiniad un i un ac adolygiadau cynnydd, tiwtorialau grŵp, sesiynau ar destunau sy'n berthnasol i oedolion ifanc, fel ymwybyddiaeth o gyffuriau ac alcohol, cyllidebu a 'chamau nesaf'. Mae'r rhaglen diwtorialau'n cyfrannu'n dda at ddatblygu iechyd a lles y dysgwyr.

Mae'r coleg yn rhoi cefnogaeth dda iawn i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu penodol pan fyddant yn cysylltu â'r coleg gyntaf. Maent yn darparu cymorth wedi'i deilwra a chymorth arbenigol iawn yn aml, sy'n diwallu anghenion unigol dysgwyr yn effeithiol ac yn eu galluogi i gyfranogi'n llwyddiannus ym mywyd y coleg.

Mae polisi a gweithdrefnau priodol gan y coleg ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn hyrwyddo ethos cadarnhaol o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac mae'n darparu amgylchedd dysgu cynhwysol. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl a'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys amcanion clir sy'n cael eu monitro a'u hadolygu'n briodol gan y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cynhelir amrywiaeth eang o weithgareddau a digwyddiadau gan y Coleg yn ystod y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Ffair Amrywiaeth flynyddol a diwrnod cynlluniedig o gyfnewid sesiynau rhwng dysgwyr mewn meysydd sy'n cynnwys mwy o'r un rhyw na'r llall yn draddodiadol, fel trin gwallt a cherbydau modur. Mae'r coleg yn darparu modelau rôl da i herio stereoteipio, fel staff cymorth benywaidd cymwys mewn cynnal a chadw cerbydau modur.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar bob un o safleoedd y coleg yn cynnig amgylchedd dysgu croesawgar. Darperir mannau o ansawdd da yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd dysgu, nid yw'r adeiladau'n bodloni safonau uchel y rhan fwyaf o adeiladau'r coleg. Mae rhai o'r ystafelloedd dosbarth yn rhy fach ac mae'r lle yn gyfyng i ddysgwyr weithio ynddo. Mae gan y coleg gynlluniau cynhwysfawr ar waith ar gyfer adnewyddu ac ailadeiladu'r ardaloedd hyn.

Ceir adnoddau da mewn llawer o ystafelloedd dosbarth a gweithdai, ac mae byrddau gwyn rhyngweithiol yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth. Mae'r offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu sydd ar gael i ddysgwyr ei ddefnyddio o ansawdd gweithiadwy.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Ers ffurfio Coleg Gŵyr Abertawe yn 2010, mae arweinwyr a rheolwyr wedi gwneud cynnydd da yn sefydlu un sefydliad unigol gyda gwerthoedd a nodau cyffredin. Mae sefydlu'r coleg yn dangos ymrwymiad cadarn i fodloni agenda Llywodraeth Cymru ar gyfer trawsnewid addysg. Mae'r coleg newydd wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol, yn enwedig o ran costau rheoli staff, ac mae wedi cynnal pob un o'r gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn dda. Effaith negyddol fach iawn mae'r newidiadau yn sgil yr uno wedi'i chael ar ddysgwyr. Mae arweinwyr a rheolwyr yn ymgynghori â staff yn eang mewn perthynas â newidiadau arfaethedig, ac mae hyn wedi helpu cynnal morâl staff, sy'n gyffredinol dda.

Aethpwyd ati'n ofalus i reoli'r broses o sefydlu'r coleg newydd ac yn gyffredinol mae rheolwyr wedi ymateb yn dda i'w rolau newydd. Mae'r rhaglen datblygu rheolwyr wedi bod yn arbennig o effeithiol yn datblygu medrau a dealltwriaeth ymhlith y staff sydd â chyfrifoldebau rheoli. Mae arweinwyr a rheolwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd mewn timau, maent yn rhannu diben cyffredin ac yn mwynhau'r heriau a ddaw yn sgil eu rolau newydd. Fodd bynnag, mae agweddau ar y strwythur lle mae gormod o bwysau, yn enwedig yn llwythi gwaith a chyfrifoldebau rheoli staff y rheolwyr meysydd dysgu.

Mae cyfathrebu’n dda yn gyffredinol ar draws y coleg unedig. Cynorthwyir hyn gan y rhaglen reolaidd o gyfarfodydd sy’n galluogi i wybodaeth lifo’n briodol. At ei gilydd, mae rheolwyr yn llwyddo i gynnal ffocws strategol y coleg tra’n hwyluso gweithrediad rheolaeth y coleg o ddydd i ddydd.

Mae trefniadau priodol gan y coleg ar gyfer rheoli perfformiad staff, ac mae’n gwneud cynnydd da i gydweddu’r trefniadau hyn ag anghenion y coleg newydd.

Mae llywodraethwyr y coleg unedig yn darparu arweinyddiaeth dda, ac maent yn wybodus iawn ynglŷn â llawer o agweddau ar waith y coleg, yn enwedig mewn perthynas â’i gyfeiriad strategol a’i strategaeth ystadau. Maent wedi rhoi cymorth a her gadarn i’r rheolwyr ynghylch sefydlu’r coleg. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwybod gymaint am safonau ac ansawdd cyflawniadau dysgwyr. Nid ydynt yn cael digon o wybodaeth ddefnyddiol mewn fformat sy’n eu galluogi i herio perfformiad y coleg, yn enwedig mewn perthynas â meincnodau perfformiad mewn colegau eraill yng Nghymru.

Mae’r llywodraethwyr yn cyflawni’u cyfrifoldebau statudol yn dda, ac mae ganddynt drefniant priodol ar gyfer goruchwylio cwynion ac apeliadau. Mae’r myfyrwyr lywodraethwyr yn aelodau effeithiol o’r bwrdd, a gwnânt gyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau’r bwrdd ar faterion allweddol. Nid yw’r bwrdd newydd wedi penderfynu sut bydd yn mynd ati i hunanasesu ei berfformiad ei hun.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn dangos ymrwymiad cadarn i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer gwella ansawdd addysg a hyfforddiant. Maent yn gweithio’n dda gydag ysgolion uwchradd lleol i ddarparu dewis da o lwybrau dysgu, a thrwy sefydlu coleg newydd, maent yn gweithio gyda’i gilydd i wella cyfleoedd i bob dysgwr yn ardal Abertawe.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r coleg yn gwneud cynnydd da o ran cyfuno dwy system ansawdd wahanol, gan adeiladu ar gryfderau’r systemau unigol yn y ddau goleg etifeddiaeth. Mae’r uwch dîm rheoli’n ymrwymedig i ddatblygu prosesau ansawdd mewn ffordd sy’n grymuso staff ac yn sicrhau ymgysylltu â gwella ansawdd.

Mae strwythur clir ar gyfer adrodd am ansawdd. Mae’r Rheolwyr Meysydd Dysgu yn deall eu cyfrifoldeb am ansawdd, ac maent yn awyddus i rannu arfer dda ar draws y coleg. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o’r Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Bennarth. Cesglir adborth gan ddysgwyr, ac mae cyfranogiad cynrychiolwyr o ddosbarthiadau i’w weld ar draws y coleg.

Mae’r staff yn cael eu cynnwys yn dda mewn adolygiadau o gyrsiau a phynciau, ac mae hyn yn bwydo i hunanasesiadau cyfadran. Mae systemau da ar waith ar gyfer datblygu adroddiadau hunanasesu ar lefel cyfadran a phwnc. Fodd bynnag, nid oes digon o ddadansoddi data ar berfformiad dysgwyr, o gymharu â chymaryddion cenedlaethol cyhoeddedig, i alluogi nodi meysydd perfformiad uchel ac isel penodol yn ddigon clir. O ganlyniad, nid oes dealltwriaeth gyson ar draws y coleg o’r rhesymau pam mae rhai meysydd yn perfformio’n dda a pham mae meysydd eraill yn tanberfformio o ran deilliannau.

Mae'r coleg wedi cyflwyno rhaglen dreigl dair blynedd o Adolygiadau Mewnol o feysydd rhaglen, ac mae'r gyntaf o'r rhain wedi nodi meysydd pellach i ganolbwyntio arnynt o ran gwella ansawdd. Mae arsylwadau athrawon a gaiff eu graddio yn rhan annatod a defnyddiol o'r broses ansawdd, ac fe'u defnyddir yn dda i lywio'r Adolygiad Mewnol.

Mae'r coleg yn ymgysylltu'n dda â rhwydweithiau proffesiynol, gan gynnwys Colegau Cymru a chymunedau dysgu proffesiynol cenedlaethol eraill. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth o rwydweithio effeithiol i rannu arfer dda a llywio cynlluniau gwella ansawdd gyda darparwyr addysg eraill. Mae'r coleg wedi gwneud defnydd da o fentrau'r Gronfa Gwella Ansawdd i ganolbwyntio ar addysg a dysgu a datblygu llythrennedd, er ei bod hi'n rhy gynnar eto i fesur effaith y rhain ar ansawdd a safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r coleg unedig wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau effeithiol ar lefel strategol a gweithredol. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnwys rhwydweithiau lleol a rhanbarthol yn y sector cymunedol, gwirfoddol a busnes. Mae'r coleg yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol, colegau addysg bellach eraill, sefydliadau addysg uwch, darparwyr dysgu yn y gwaith, a'r Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol. Mae ganddo gysylltiadau cadarn â nifer o asiantaethau allanol fel y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) a'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI).

Yn y Rhwydwaith 14-19, mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda phob un o'r ysgolion uwchradd 11 i 16 lleol. Mae'n cynnig nifer o lwybrau galwedigaethol i ddisgyblion, gan gynnwys peirianneg, cerbydau modur a thrin gwallt. Mae rhyw 54% o ddysgwyr sy'n dilyn y llwybrau hyn yn symud ymlaen at addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r adran celfyddydau perfformio yn cynnal prosiect cydweithredol blynyddol rhwng y coleg a chwe ysgol uwchradd leol, gyda phob grŵp yn perfformio cynhyrchiad cerddorol byr ac yna'n cyflwyno diweddglo gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'r coleg wedi'i chael hi'n anodd sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol sydd â chweched dosbarth.

Fel rhan o brosiect y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Pennaeth yw'r 'eiriolwr' dros y prosiect Pobl Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn ardal Abertawe. Mae'r prosiect hwn wedi cael effaith sylweddol ar leihau nifer y dysgwyr na fyddent fel arfer mewn addysg neu hyfforddiant. Mae staff gwasanaethau cymorth myfyrwyr a swyddogion cwricwlwm yn mynd ati'n effeithiol i fonitro dysgwyr 'mewn perygl' yn ystod eu hamser yn y coleg er mwyn eu hatal rhag gadael y coleg a mynd yn ôl ar y gofrestr NEET.

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda nifer o bartneriaid tramor. Mae prosiectau'n cynnwys cefnogi ysgolion yn Kenya a phrosiect partneriaeth gyda nifer o golegau Cymru i ddatblygu ymweliadau cyfnewid i ddysgwyr a hyfforddiant i athrawon a rheolwyr yn Tsieina a Fietnam.

Mae'r coleg wedi datblygu partneriaethau da gyda chyflogwyr a'r cynghorau sgiliau sector. Mae uwch aelodau staff yn gweithio gyda llawer o'r cynghorau sgiliau sector i gyflwyno menter 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Mae hyn yn helpu sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion diwydiant ac yn nodi bylchau o ran medrau.

**Rheoli adnoddau:  Da**

At ei gilydd, mae’r coleg unedig yn rheoli’i adnoddau’n dda.  Mae’n mynd ati’n bragmatig ac yn ystyriol i reoli adnoddau.  Mae’r cynllunio ar lefel strategol yn ystyried cynlluniau cwricwlwm a chostau ariannol gyda’i gilydd.  Mae hyn yn golygu bod cynlluniau cyllidol yn cael eu harwain yn briodol gan anghenion addysgu a dysgu.  Llwyddodd yr uno diweddar i sicrhau arbediad effeithlonrwydd o £1.5m yn erbyn targed cychwynnol o £1.1m heb orfod diswyddo unrhyw staff yn orfodol.

Mae’r coleg wedi rheoli adnoddau dynol yn ofalus trwy gydol y broses uno ddiweddar.  Cefnogir y rheolwyr yn effeithiol gan uwch ymgynghorwyr Adnoddau Dynol a benodwyd yn ddiweddar ac a ddyrannwyd i bob cyfadran.  Mae hyn yn galluogi sefydlu perthnasoedd effeithiol a defnyddio medrau arbenigol mewn sefyllfaoedd sensitif.  Fodd bynnag, mae’r coleg yn dal i ddatblygu ei seilwaith a’i brosesau ar gyfer monitro Adnoddau Dynol fel y gall dargedu ymyriadau’n well er mwyn gwella deilliannau i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, mae rheoli a chynllunio gofalus ar gyfer yr holl gyrsiau o ran incwm a gwariant.  Caiff cyllidebau eu dirprwyo’n briodol.  Ar hyn o bryd mae’r coleg yn dod â chysondeb i’w brosesau a’i systemau er mwyn gwella’r ffordd y caiff data defnyddiol ei gasglu, ei ddadansoddi a’i ddefnyddio i lywio defnyddio adnoddau’n fwy effeithiol.

Mae’r coleg wedi mynd ati’n llwyddiannus i gyfuno’r systemau technoleg gwybodaeth o’i ddau goleg etifeddiaeth heb darfu fawr ddim ar ddysgwyr.  Mae’r coleg wedi paratoi strategaeth wybodaeth er mwyn ehangu a gwella mynediad i adnoddau technoleg gwybodaeth.  Nid yw’n ddigon strategol, fodd bynnag, ac nid yw’n cynnwys mesurau clir yn seiliedig ar ddeilliannau i ddiwallu anghenion dysgwyr presennol neu ddysgwyr y dyfodol.

Yn sgil cynlluniau strategol i ddatblygu ystâd y coleg yn newid yn gyflym oherwydd cyfyngiadau ariannu, mae’r coleg yn dilyn ail gynllun yn hyderus.  Mae hwn yn ceisio rhesymoli’r ystâd er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm a cheisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau i’r adeiladau ar bob un o’i gampysau.

Mae’r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn dda, ac fe wnaeth y coleg reoli ei adnoddau ariannol a’i adnoddau eraill yn dda yn ystod yr uno.  Mae’r coleg yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Boddhad dysgwyr

Mae'r holiaduron dysgwyr yn dangos bod dysgwyr wedi mynegi lefel uchel o foddhad ar amrywiaeth o ddarpariaeth y coleg. Mae bron yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag unrhyw aflonyddu yn y coleg; maent yn dangos lefelau uchel o barch ac yn cefnogi'i gilydd yn dda. Byddai bron pob un o'r dysgwyr yn argymell y coleg i bobl eraill. Mae dysgwyr yn tynnu sylw at y lefel uchel o gymorth gan staff a thiwtoriaid personol, yn enwedig yn ystod yr wythnosau cyntaf yn y coleg.

## Atodiad 2

Mae data heb ei ddilysu a ddarparwyd gan y coleg unedig ar gyfer 2010-2011 yn dangos bod cyfraddau llwyddo cyffredinol yn parhau â thuedd am i fyny, gyda chyfradd gwblhau gyffredinol o 89% a chyfradd cyrhaeddiad o 85% ar gyfer pob cwrs. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer pynciau Safon Uwch yn dda ar 89%, yn ddigonol ar lefel UG sef 67%, ac yn dda ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, sef 79%. Mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer cymwysterau medrau hanfodol yn dda ar gyfer Cyfathrebu a Thechnoleg Gwybodaeth ac yn ddigonol ar gyfer Cymhwyso Rhif.

Ar gyfer 2010-2011, mae data ar gyfer y coleg unedig yn dangos bod cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer pynciau A2 ac UG yr un peth neu gerllaw cyfartaleddau'r Cydgyngor. Mae cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer pynciau A2 yn dda ar 97.9%, gyda 79% o ddysgwyr yn ennill graddau A* i C. Mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer pynciau UG yn dda/digonol ar 87.8% gyda 66% o ddysgwyr yn ennill graddau A* i C. Mae niferoedd da yn ennill graddau uwch ar raglenni galwedigaethol, gyda dros draean o ddysgwyr yn ennill tair gradd Rhagoriaeth, a dros 60% o ddysgwyr yn ennill o leiaf un radd Rhagoriaeth.

Y cyfraddau llwyddo yn y medrau hanfodol ar gyfer 2010-2011 yw 71% yn gyffredinol. Y gyfradd lwyddo ar gyfer Cyfathrebu yw 73%, mae'n 61% ar gyfer Cymhwyso Rhif, ac yn 80% ar gyfer TG. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer pynciau A2 yn dda'n gyffredinol ar 97.9%, gyda 78.9% o raddau A*-C. Mae hyn gerllaw cyfradd y Cydgyngor, sef 97.2%. Y cyfraddau llwyddo ar gyfer UG yw 87.8%, gyda 65.7% yn cael graddau A-C. Mae'r gyfradd lwyddo UG gerllaw cyfradd y Cydgyngor, sef 86.8%.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Collins AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Eleanor Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims AEM | Arolygydd Tîm |
| Betsan O'Connor AEM | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Nicola Gamlin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Stephen Llewellyn | Arolygydd Cymheiriaid |
| Alison Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dafydd Rhys | Arolygydd Cymheiriaid |
| Keith Backhouse | Arolygydd Cymheiriaid |
| Jeff Walters | Enwebai'r Darparwr |